

Canllawiau Ymarferol

Rhan coed mewn ffermio defaid

Gorffennaf 2011



COED CADW
WOODLAND
TRUST





Mae defaid yn rhan nodweddiadol o dirwedd Prydain ac maent wedi chwarae rhan bwysig dros ganrifoedd wrth lunio ecoleg, cymunedau gwledig, diwydiant ac economi'r Deyrnas Unedig. Mae ffermio defaid yn bwysig i'r cyflenwad bwyd domestig a byd-eang. Mae gwybodaeth a sgiliau diwydiant defaid y Deyrnas Unedig a geneteg defaid y Deyrnas Unedig o bwys rhyngwladol. Gall ffermio defaid fod â rhan dyngedfennol hefyd yn rheolaeth yr amgylchedd er budd ehangach y cyhoedd yn yr ucheldiroedd a'r iseldiroedd wrth gynnal bioamrywiaeth, rheoli ansawdd dŵr a pherygl llifogydd, cynnal tirweddau gwerthfawr a darparu'r sylfaen ar gyfer systemau ffermio cylchdro cymysg.

Mae'r llyfryn hwn yn edrych ar ran coed a llwyni brodorol wrth reoli defaid. Wedi'u hintegreiddio'n feddylgar mewn systemau rheoli defaid, gall coed gynyddu cynhyrchiant a gwella iechyd a lles anifeiliaid tra'u bod hefyd yn cynnig buddion ehangach i'r amgylchedd.

Cysgod

Mae ŵyna yn yr awyr agored wedi dod yn fwyfwy poblogaidd gan ei fod yn lleihau costau llafur ac yn golygu bod llai o glefydau'n crynhoi o gymharu ag ŵyna dan do – y costau mwyaf sylweddol wrth gynhyrchu defaid. Hyd yn oed mewn ardaloedd ble mae ŵyna yn yr awyr agored yn anymarferol neu ble mae'n dal yn well gan ffermwyr ŵyna dan do oherwydd tywydd anwadal, mae troi allan yn gynnar yn fwyfwy cyffredin. Cydnabyddir bod cysgod da yn bwysig i ŵyna'n llwyddiannus yn yr awyr agored ac er mwyn i'r ŵyn bach fyw. Oerfel yw un o achosion mwyaf colli ŵyn newydd-anedig – oerfel a llwgu yw achos tua thraean o farwolaethau ŵyn. Caeau cysgodol, da eu draeniad sy'n darparu'r amodau ffisegol gorau ar gyfer ŵyna a bod yn fam dda. Trwy greu'r amodau iawn i famogiaid ac ŵyn bach, gall marwolaethau ŵyn gael eu lleihau a dweud y gwir, o gymharu ag ŵyna dan do, o ganlyniad i well bondio gyda'r ddafad a bod yn llai agored i berygl clefyd.

Mae astudiaethau wedi dangos y gellir lleihau colledion ŵyn o hyd at 30% mewn tywydd oer, gwlyb a gwyntog os caiff cysgod da ei ddarparu. Ŵyn sy'n efeilliaid a thripledi sy'n cael fwyaf o fudd o gysgod oherwydd eu pwysau geni perthynol is a'u tuedd uwch i ddioddef gan amodau oer, gwlyb a gwyntog.

Gall lleiniau cysgodi gael eu cynllunio i gynorthwyo ymddygiad naturiol mamogiaid a chynnig cyfleoedd iddynt fod ar eu pen eu hunain pan fyddant yn ŵyna. Mae bod ar eu pen eu hunain yn



Oerfel yw un o achosion mwyaf colledion ŵyn newydd-anedig. Caeau cysgodol, da eu draeniad sy'n darparu'r amodau gorau ar gyfer ŵyna.

gwella'r siawns i fond cryf ddatblygu'n gynnar rhwng y ddafad a'i hŵyn, o well sugno a chymeriant colostrwm a llai o berygl o glefyd a mwy o ymwrthedd i'r oerni.

Dylai cysgod gael ei gynllunio i ddarparu cysgodfa dda i lawr at y ddaear. Bydd defnyddio llwyni i roi gwaelod trwchus i leiniau cysgodi o goed yn sicrhau digonedd o gysgodfa lefel isel. Yn yr un modd dylid cynnal a chadw gwrychoedd i fod yn rhydd o fylchau, sy'n gallu sianelu gwynt. Bydd plygu gwrychoedd neu blannu llwyni gwrych i lenwi bylchau yn cynnal amddiffynfa rhag oerfel gwynt.

Os yw ŵyna didol yn cael ei arfer, gall cysgod gael ei ddefnyddio hefyd i rannu cae mawr yn badogau.



Pontbren - Dull a arweinir gan ffermwyr o gynhyrchu defaid yn gynaliadwy

Tirwedd ucheldirol yng nghanolbarth Cymru yw Pontbren. Ar ddiwedd y 1990au penderfynodd tri o ffermwyr Pontbren newid y ffordd yr oeddynt yn rheoli'r tir. Yn fuan ymunodd ffermwyr cyfagos â nhw, ac erbyn 2001 roedd y grŵp yn cynnwys 10 fferm ar draws 1000 hectar o'r dalgylch.

Er eu bod wedi bod yn cael mwy am eu stoc o ganlyniad i welliannau amaethyddol, roedd biliau gwrtaih a bwydydd yn cynyddu hefyd. Fe wnaethant benderfynu gostwng mewnbynnau a symud at fridiau defaid caletach a oedd yn gallu wyna yn yr awyr agored ac a oedd ag angen eu cadw dan do lai yn ystod y gaeaf. Ar sail uchder a pha mor agored oedd y ffermydd, fe wnaethant sylweddoli bod angen cynyddu cysgod trwy adfer gwrychoedd a choetir a esgeuluswyd, a phlannu cysgod newydd.

Gwyddai'r ffermwyr ble oedd angen y cysgod, pa dir oedd yn wlyb a ble oedd elwy'r traed a llyngyr yr iau/afu

(ffliwc) yn gyffredin. Roeddynt yn gallu cynllunio gwrychoedd a lleiniau coetir ble gallent helpu gyda chasglu defaid i mewn, a ffensio llethrau serth. Mewn mannau gwlyb, yn hytrach na pharhau brwydr i wella draeniad a oedd yn aml yn ofer, cafodd y mannau hyn eu ffensio a'u gwneud yn llynnoedd, sy'n awr yn darparu cyflenwad ychwanegol o ddŵr. Fe wnaethant ddefnyddio plannu coed o amgylch terfynau'r fferm hefyd i wella bioddiogelwch trwy leihau'r tebygolrwydd o gysylltiad â diadelloedd cyfagos.

Ar ddechrau'r prosiect dim ond 1.5% o Bontbren oedd yn goetir, a hwnnw'n goetir glannau afon a esgeuluswyd gan



mwyaf. Bellach maent wedi plannu dros 120,000 o goed a llwyni newydd, wedi creu neu adfer 16.5 km o wrychoedd ac mae bron 5% o dir Pontbren yn goetir erbyn hyn. Mae hyn wedi'i gyflawni heb gollu dim cynhyrchiant amaethyddol.

Daeth hi'n amlwg yn fuan bod y plannu coed, yn ychwanegol at ddarparu cysgod, yn lleihau dŵr ffo. Roedd yr ymchwiliadau cychwynnol yn dangos bod ymdreiddiad dŵr mewn lleiniau cysgodi a blannwyd yn ddiweddar 60 gwaith cymaint yr hyn oedd yn y tir glas cyfagos. Trwy leihau llifau dros y tir a chynyddu ymdreiddiad, roedd llifau nentydd yn eu hanterth yn cael eu lleihau hefyd. Mae ymchwil o'r prosiect yn awgrymu y gall lleiniau cysgodi o goed wedi'u lleoli'n dda a gwrychoedd wedi'u hadfer arwain at ostyngiad yn anterth llif nentydd o tua 40% o fewn y math yma o ddalgylch ucheldir.

Mae'r prosiect hwn wedi dangos pwysigrwydd adnabod y tir yn fanwl wrth gynllunio a lleoli lleiniau coed. Maent wedi llwyddo ar yr un pryd i wella gwynwch a chynaliadwyedd eu ffermydd tra'u bod yn cyflawni buddion cyhoeddus gwell ansawdd dŵr a lliniaru llifogydd. Yn ogystal, mae'r plannu newydd a'r gwrychoedd a'r coetir adferedig wedi cyflawni buddion bioamrywiaeth ac wedi helpu i storio carbon.

Mae coed a choetiroedd bellach yn rhan annatod o reoli ffermydd ym Mhontbren gan ddangos y buddion i ffermio da byw yn yr ucheldir, i reolaeth dŵr, bywyd gwyllt a'r dirwedd.



Twf glaswellt

Mae cysgod yn lleihau cyflymder y gwynt ac felly'n lleihau anwedd-drydarthiad dŵr o'r glaswellt. Os yw'r gwanwyn/haf yn sych – sy'n digwydd yn fwyfwy aml, hyd yn oed yn ardaloedd yr ucheldir – gall hyn fod yn ffactor tyngedfennol wrth barhau twf glaswellt. Mae'r cysgod yn cael yr effaith hefyd o godi tymheredd y pridd yn nechrau'r gwanwyn ac ar ddiwedd yr hydref, gan ymestyn tymor tyfu'r glaswellt.





Iechyd a lles anifeiliaid

Mae nifer o ffyrdd y gall coed a gwrychoedd gyfrannu at well iechyd a lles anifeiliaid. Yn ogystal â lleihau colledion wŷn newydd-anedig oherwydd oerfel a hypothermia, gall lleihau bod yn nannedd eithafion y tywydd, yn wyntoedd oer ac yn wres eithafol, helpu i wella iechyd a lles cyffredinol trwy well maethiad, llai o straen a gwell gweithrediad imiwnedd.

Clefyd yr Iau/Afu (Ffliwc)

Mae'r blynyddoedd diweddar wedi gweld cynnydd ym mynychder a lledaeniad clefyd yr iau/afu (ffliwc), yn rhannol oherwydd symud stoc, ond hefyd oherwydd cyfres o flynyddoedd gwlyb sy'n ffafrio poblogaethau o falwod sy'n cario'r parasit. Mae rhoi stoc sy'n cyrraedd y fferm mewn cwarantyn yn

bwysig wrth osgoi cyflwyno llyngyr yr iau/afu. Mae triniaeth a rheolaeth effeithiol yn hanfodol hefyd wrth reoli'r parasit hwn a'i gylchred bywyd cymhleth.

Pan fyddir yn lleoli lleiniau cysgodi o goed gellir cymryd y cyfle i ffensio manau gwlyb ble mae'n hysbys bod llyngyr yr iau/afu yn gyffredin. Gall lleiniau cysgodi o goed a gwrychoedd llydan – yn arbennig y rheini ar draws y llechwedd - gynyddu ymdreiddiad dŵr i mewn i'r pridd hefyd, gan leihau dŵr wyneb a'r amodau gwlyb sy'n debygol o ffafrio'r malwod sy'n gweithredu fel cyfrwng lletyol i'r parasit.

Mastitis

Mae mastitis mewn mamogiaid yn ganlyniad haint bacterol sy'n datblygu fel arfer yng nghyfnodau cynnar y cyfnod llaetha. Mae briwiau ar y tethi a



achosir gan sugno gormodol gan yr ŵyn yn caniatáu i'r bacteria gael mynediad. Gwaethygir y broblem trwy fod yn nannedd gwyntoedd oer a thrwy lygru'r pwrs/gadair gan fwd sy'n gallu achosi i famogiaid dueddu at heintiad. Mae darparu lleiniau cysgodi o goed yn gallu lleihau'r perygl o fastitis

Cloffni

Gall cloffni fod yn ganlyniad nifer o heintiadau, yn cynnwys clwy'r traed, sgaldiadau traed, Dermatitis Digidol Heintus Defaid (CODD) ac yn ganlyniad pridd yn mynd yn bêl ar garnau. Gall cloffni leihau canran ŵyna, pwysau geni a phwysau tyfiant ŵyn, yn ogystal ag effeithio ar gynhyrchu llaeth a ffrwythlondeb is mewn hyrddod.

Mae mynychder llawer achos o gloffni'n gallu cael ei fwyhau gan amodau llaith dan draed sy'n meddalau'r bwlch rhwng

y carnau a'i wneud yn fwy tueddol i gael heintiadau. Bydd cyfraddau stocio uchel, yn arbennig ar borfa wael ei draeniad gyda sathru difrifol yn gwaethygu'r amodau ac yn mwyhau mynychder sawl achos cloffni.

Mae canfod clefyd a'i drin yn amserol ac yn effeithiol yn dyngedfennol, ynghyd â dulliau rheoli sy'n lleihau lledaeniad clefyd.

Gall lleihau dŵr wyneb helpu i leihau'r arwynebedd o dir gwlyb sy'n agored i gael ei sathru ac sy'n gweithredu fel magwrfa i glefyd, a hefyd yn lleihau mynychder pridd yn pelennu ar garnau. Mae lleiniau coed ar draws y llechwedd yn dal dŵr ffo ac yn lleihau'r dŵr wyneb sy'n casglu ar borfa.

Bioddiogelwch

Gellir cynyddu bioddiogelwch cyffredinol y fferm trwy greu lleiniau coed neu wrychoedd trwchus o amgylch terfyn y fferm, gan leihau'r posibilrwydd o gysylltiad uniongyrchol â diadelloedd cyfagos a lledaeniad clefyd.

Buddion ehangach

Gall cynyddu'r gorchudd o goed ar ffermydd ddarparu buddion ehangach, yn ogystal â chynnal cynhyrchu.

Ansawdd dŵr a pherygl llifogydd

Gall hyd yn oed gynnydd cymharol fach yn y gorchudd o goed a gwrychoedd gynyddu ymdreiddiad dŵr a lleihau dŵr ffo yn ddramatig. Mae i hyn ddau oblygiad o ran rheoli dŵr.

Yn gyntaf mae dŵr sy'n ymdreiddio i'r pridd mewn lleiniau coed neu wrychoedd yn llai tebygol o gludo llygryddion posibl i mewn i gyrsiau dŵr – mae hyn yn cynnwys gwaddod, deunydd organig, organebau ysgarthol a maethynnau. Mae colli pridd a maethynnau'n gost i'r fferm ond mae iddo oblygiadau hefyd o ran costau trin dŵr ymhellach i lawr yr afon

Yn ail trwy gynyddu ymdreiddiad mae'r gyfradd y mae dŵr glaw yn cyrraedd nentydd ac afonydd yn cael ei arafu. Yr effaith yw gostwng anterth y llif yn y cwrs dŵr ac efallai leihau'r perygl o lifogydd i lawr yr afon.

Bywyd gwylt

Mae ymgorffori nodweddion naturiol megis coed, coedlannau a gwrychoedd ar y fferm yn cynyddu'r arwynebedd o gynefin sydd ar gael i fywyd gwylt. Mae llawer o rywogaethau o adar a phryfed yn elwa ar y cysgod a roddir gan goed hefyd. Mae ffrwythau, paill a neithdar o goed a llwyni yn eu blodau yn darparu bwyd, yn arbennig yn gynnar yn y tymor cyn i lawer o blanhigion anghoediog ddod i'w blodau.

Wrth i'r hinsawdd newid, bydd nodweddion naturiol yn y dirwedd yn gymorth i symudiad rhywogaethau wrth iddynt geisio addasu i hinsawdd sy'n newid.

Cynhyrchu coed

Er y dylai prif gynllun lleiniau cysgodi gael ei seilio ar ddatblygu gorchudd sy'n

cynnal cynhyrchu defaid, gall y coed ddarparu cynhyrchion defnyddiol hefyd i'w defnyddio ar y fferm neu i'w gwerthu.

Gellir cynhyrchu coed tân a sglodion ar gyfer bwyleri sy'n llosgi coed trwy denuo neu fondocio'r coed fel rhan o'r rheoli arferol. Gall sglodion coed gael eu defnyddio hefyd i ddarparu gwasarn amgen naill ai i gymryd lle gwellt neu i'w gymysgu ag ef.



Defaid ar wasarn sglodion coed



Plannu’ch lleiniau cysgodi a gwrychoedd

Mae cynnal a chadw ac adfer gwrychoedd sydd mewn bod yn fan cychwyn da i ddatblygu cysgod da. Mae gwrychoedd newydd a grëwyd i helpu i drin defaid neu i rannu caeau mawr yn gallu darparu cysgod ychwanegol fel rhan o reolaeth gyffredinol y ddiadell.

Gall y budd cysgod mwyaf ddod o leiniau o goed. Gellir integreiddio’r rhain trwy’u plannu’n gyfagos i’r gwrychoedd presennol – eu plannu ar yr ochr ogleddol neu fwy cysgodol i osgoi taflu cysgod dros y gwrych. Yn ogystal, mae modd plannu manau gwlyb, corneli anhylaw a manau y mae’n hysbys eu bod yn dueddol i gael dŵr ffo dros y tir i leihau mynediad i fannau gwlyb neu anodd eu rheoli ac i leihau’r maint o ddŵr wyneb sy’n debygol o arwain at sathru neu sy’n gweithredu fel cynefin i falwod clefyd yr iau/afu.

Bydd dewis rhywogaethau o goed sy’n frodorol i’r Deyrnas Unedig yn helpu i sicrhau bod y coed yn dra addas i’r safle a’u bod yn gallu cyflenwi’r buddion ehangach i fywyd gwyllt. Bydd yr union ddewis yn dibynnu ar y lleoliad, y priddoedd a’r uchder. Bydd coed newydd eu plannu ag angen eu chwynnu am yr ychydig flynyddoedd cyntaf a’u diogelu rhag llygod pengrwn, cwningod, ysgyfarnogod a cheirw, yn dibynnu ar ble’r ydych yn y Deyrnas Unedig.

Cyngor a chefnogaeth am ddim

Mae Coed Cadw (The Woodland Trust) yn cynnig cyngor a chefnogaeth am ddim i blannu coed a gwrychoedd ar eich fferm. Gall ein cynghorwyr helpu i glustnodi'r coed gorau ar gyfer eich fferm, ynghyd â chymorth grant priodol ble mae ar gael.

Ffoniwch **01476 452356** i gael ymweliad am ddim neu cymerwch olwg ar ein gwefan ar **woodlandtrust.org.uk/plant-trees**

Meddai Dr Fiona Lovatt, Ymgynghorydd Milfeddygol Defaid:

“O safbwynt iechyd diadell mae yna nifer o sefyllfaoedd ble mae cae cysgodol yn amhrisiadwy – nid yn lleiaf wrth leihau'r perygl o hypothermia mewn ŵyn newydd eu geni a'r perygl o fastitis yn eu mamau. Gall plannu coed a gwrychoedd wella draeniad a chwarae rhan hanfodol mewn ffermio defaid integredig, y mae'n rhaid iddo fod yn beth da i'r ddiadell ac i'r amgylchedd.”



**COED CADW
WOODLAND
TRUST**

01476 452356

woodlandtrust.org.uk/plant-trees